# ADRODDIAD AR YMWELIAD Â BRWSEL – RHAGFYR 2023

## Diben yr Ymweliad

Diben yr ymweliad oedd mynd i'r Brecwast Gweddi Ewropeaidd a gynhelir yn flynyddol, sy'n cynnwys tua 500 o bobl o bob rhan o'r byd, y rhan fwyaf ohonynt yn gysylltiedig â'u senedd benodol. Roeddwn i yno am y tro cyntaf, ac roedd cyfres o ddigwyddiadau dros y ddau ddiwrnod yr oeddwn yn bresennol. Roedd hyn yn cynnwys digwyddiad i fenywod, digwyddiadau llai gyda seneddwyr a thrafodaethau â ffocws ar faterion allweddol megis cynnwys pobl ifanc mewn gwleidyddiaeth a rôl ffydd mewn gwleidyddiaeth.

## Rôl brecwastau gweddi

Mae Senedd Cymru yn cynnal brecwast gweddi o gwmpas Dydd Gŵyl Dewi yn y Senedd, gyda thua 100 o bobl yn bresennol – eto o bob rhan o'r byd. Tra'n ymweld â Brwsel, dysgais am bwysigrwydd brecwastau gweddi i bawb sy'n grefyddol, gyda chyflwyniadau yn y digwyddiad Brecwast gan Fwslimiaid o'r Lan Orllewinol a phobl Iddewig o Israel. Mae'r digwyddiadau ar draws y byd yn hanfodol i ddod â phobl sy'n gysylltiedig â gwleidyddiaeth o bob crefydd a'r rhai heb grefydd at ei gilydd, a rhoi cyfle i gyfarfod a thrafod yn agored pa mor bwysig yw dysgu oddi wrth ein gilydd a rôl ffydd mewn gwahanol seneddau.

## Digwyddiadau/cyfleoedd dysgu penodol

- Cydweithio â phobl o wahanol grefyddau ar faterion cyffredin fel buddsoddi a chyllid
- Effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd ar Gymru a'r materion sy'n wynebu seneddwyr eraill mewn gwledydd eraill
- Pwysigrwydd uniondeb a moeseg mewn gwleidyddiaeth a seneddau
- Arferion o ran cefnogi pobl ifanc a theuluoedd ifanc i aros yn eu cymunedau lleol

## Meysydd posibl ar gyfer cydweithio parhaus

- Ffurfiais gysylltiadau â phobl ifanc sy'n gweithio gyda'u cyfoedion i hyrwyddo cyfranogiad gwleidyddol yn yr Almaen, a llwyddais i sicrhau y bydd dysgu a chydweithio parhaus.
- Gan weithio gyda gwleidyddion benywaidd, bu modd i mi ddysgu mwy am fenywod ym myd gwleidyddiaeth a siarad am y datblygiadau yma yng Nghymru, ond hefyd am waith seneddwyr benywaidd eraill o ran hyrwyddo cynrychiolaeth fwy cytbwys rhwng y rhywiau mewn seneddau.
- Dysgais am fuddsoddiadau moesegol a rôl cyllid mewn seneddau yn Ewrop, yn enwedig yn yr Iseldiroedd

Jane Dodds

13 Rhagfyr 2023